**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for North Wales and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/KSNWT/5412/24

21 Mehefin 2024

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
SeneddHinsawdd@senedd.cymru

Annwyl Llyr

Rwy'n ysgrifennu atoch i ymateb yn ffurfiol i adroddiad[1] eich Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 2 ynghylch y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024.

Rwy'n ddiolchgar am yr ystyriaeth a roddodd y Pwyllgor i'r materion hyn ac yn nodi casgliad yr Adroddiad isod:

> "Rydym yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau i Gymru yn y Bil. Yn yr achos hwn, ni wnaethom ganfod unrhyw reswm i wrthwynebu'r Senedd i gydsynio i gymalau 82 i 85, 87 i 90, 97 o'r Bil ac Atodlen 6 iddo. Mewn perthynas â chymal 40, rydym yn disgwyl i'r Gweinidog roi diweddariad ar drafodaethau â Llywodraeth y DU cyn cyflwyno'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm."

**Ymateb Llywodraeth Cymru**: **Derbyn.**

**Goblygiadau ariannol** - Dim.

[1]https://senedd.cymru/media/yuxhgwv3/cr-ld16438-w.pdf
https://senedd.cymru/media/yuxhgwv3/cr-ld16438-w.pdf

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwch yn ymwybodol fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3 (SLCM3) pellach dros doriad y Pasg, yn mynd i'r afael â'r diwygiadau i gymal 40 a chymal 93 y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig.

Rwy'n falch o nodi bod y Senedd wedi cymeradwyo'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol cysylltiedig yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Ebrill 2024. Mae'r Bil bellach wedi cwblhau ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin ac ar hyn o bryd mae'n aros am Gydsyniad Brenhinol.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn unwaith eto i ddiolch i chi a'ch Pwyllgor am ei waith diwyd o ran y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil Cerbydau Awtomeiddiedig.



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for North Wales and Transport